PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 48 Tachwedd 28, 2024 50c.




## Sul Sbesial – Cyfundeb Ceredigion

Dyma beth oedd Sul Sbesial yng ngwir ystyr y gair. Fe'i cynhaliwyd ar y Sul olaf Medi 2024 yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Cafwyd cyfle i addoli a mwynhau holl atyniadau rhagorol Gwersyll yr Urdd, Llangrannog a hynny trwy garedigrwydd Cyfundeb Ceredigion a chymorth trefnwyr y Sul Sbesial.

Dan fendith y Duw goruchaf fe lanwyd neuadd chwaraeon, Gwersyll yr Urdd Llangrannog ag aelodau o eglwysi Cyfundeb Ceredigion gan gynnwys plant a phobl ifanc ysgolion Sul yr eglwysi lleol. Cymerwyd rhan gan ddisgyblion o ysgolion Sul Pencae, Llanarth; Glynarthen; Llwyncelyn; Pisgah, Talgarreg; Tabernacl, Pencader. Llywyddwyd yr oedfa foreol gan y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor, ef hefyd agorodd y gair. Cymerwyd rhan gan y Parchedigion Gareth Ioan a Carys Ann a chyfeiliwyd gan

*parhad ar dudalen 2*







## Beulah, Castellnewydd Emlyn

Yn y llun gwelir Carys Ann, Islwyn Davies (trysorydd) a Gerwyn ac Eleri Morgan ar achlysur ymddeoliad Eleri ar ôl 30 mlynedd fel ysgrifennydd eglwys Beulah, Castellnewydd Emlyn. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith diwyd Eleri tros yr holl flynyddoedd yn fawr iawn ac am ei ffyddlondeb i achos Iesu Grist. Hefyd, dymunwn yn dda i Rhiannon Elias, sydd yn cymryd at yr awenau fel ysgrifennydd newydd eglwys Beulah yn ei gwaith i'r dyfodol.



# CWM: buddsoddi i'r dyfodol ac i'r byd

*Richard Morgan sy'n sôn am ei ymwneud â buddsoddion CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang), y mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn rhan ohono.*

Bedair blynedd yn ôl derbyniais wahoddiad i wasanaethu fel aelod o Bwyllgor Buddsoddion Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Daeth y cyfnod o bedair blynedd i ben ym mis Awst eleni ond mae rheolau cyfansoddiadol CWM yn caniatáu'r posibilrwydd o wasanaethu am gyfnod pellach o bedair blynedd. Cytunais i wneud, ond yn fwy na hyn, ac er mawr syndod i mi , daeth cais i mi i wasanaethu fel cadeirydd y pwyllgor.

### Pwyllgor buddsoddion CWM

Mae i'r pwyllgor saith o aelodau ynghyd â nifer o brif swyddogion CWM. Allan o'r saith, daw pedwar o'r Deyrnas Unedig, un o Zambia, un o'r Dwyrain Pell ac un o Ynysoedd y Môr Tawel. Byddwn yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, yn bennaf trwy Zoom. Yn achlysurol cawn gyfarfodydd wyneb yn wyneb, a bydd y cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor newydd yn Llundain ar ddiwedd mis Tachwedd eleni.



### Adnoddau CWM

Mae gwerth portffolio CWM ar hyn o bryd oddeutu £150 miliwn. O ble daeth yr arian hwn? Yn y 1990au yr oeddwn yn aelod o Bwyllgor Arian CWM pan oedd gwerth y buddsoddion oddeutu £7M. Gweddnewidiwyd y sefyllfa ar ddiwedd y 1990au pan benderfynodd llywodraeth Hong Kong adeiladu ysbyty yn y Tiroedd Newydd ar gyrion y ddinas a hynny yn lle ysbyty Nethersole oedd yng nghanol y ddinas. Sefydlwyd yr ysbyty gwreiddiol gan Gymdeithas Genhadol Llundain (LMS, sef rhagflaenydd CWM). Penderfynwyd gwerthu'r hen safle a chafwyd swm o £200M. Sefydlwyd gweithgor o dan arweiniad Preman Niles, Ysgrifennydd Cyffredinol CWM ar y pryd a Maitland Evans o Jamaica a oedd yn Gymedrolwr CWM dros y cyfnod hwn. Cefais y fraint o fod yn aelod o'r gweithgor hwn. Ein prif waith oedd trafod sut i ddefnyddio'r arian newydd a sylweddol hwn. Rhoddwyd canran o'r arian i Eglwys Crist yn Hong Kong (eglwys sy'n aelod o CWM) ond aeth y canran mwyaf i goffrau CWM ei hun.

Yn y blynyddoedd wedyn dosbarthwyd symiau sylweddol i'r eglwysi sy'n aelodau o CWM, a hynny ar gyfer ariannu prosiectau penodol. Elwodd Undeb yr Annibynwyr yn fawr ar y cynllun hwn. Wedi'r cyfnod o rannu, neilltuwyd y gweddill i bortffolio CWM.

### Patrwm buddsoddi CWM

Mae'r portffolio cyfan o £150M wedi'i rannu'n gyfartal rhwng dau gwmni o ymgynghorwyr ariannol, y naill a'r llall yn gofalu am oddeutu £75M yr un. Y cwmnïoedd hyn sy'n gweithredu o ddydd i ddydd ond o fewn fframwaith buddsoddi sydd wedi'i gadarnhau gan y Pwyllgor Buddsoddi. Mae aelodau'r pwyllgor yn trafod adroddiadau y ddau gwmni yn chwarterol. Rhoddir sylw cyson i berfformiad, rheoli risg a'r pwysigrwydd o barchu canllawiau moesol CWM. Mae gofyn i'r portffolio gynhyrchu incwm oddeutu £10M y flwyddyn a hynny i gwrdd â gofynion ariannol CWM yn ganolog. Cyflawnir hyn mewn dwy ffordd – gwir incwm a gynhyrchir gan y buddsoddion (oddeutu £3M) a rhan o'r twf yn y cyfalaf (oddeutu £7M). Wrth reswm mae'r un olaf yn ddibynnol ar y cyfalaf yn tyfu. Dros y tymor hir mae'r canlyniadau wedi bod yn galonogol iawn gyda'r blynyddoedd o dwf yn llawer mwy niferus na'r blynyddoedd o ostwng. Dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf profodd y portffolio dwf digonol i gwrdd â'r gofynion incwm ac eithrio ar dri achlysur, sef ar droad y ganrif pan brofwyd cwymp sylweddol ym mhrisoedd stociau digidol.

### Heriau

Yna yn 2008 pan aeth banciau'r byd i drafferthion mawr wrth iddynt gynnig morgeisi lle roedd ad-daliadau yn annhebygol. Ac yn 2022 cawsom y pandemig a bu cwymp sylweddol yng ngwerth marchnadoedd stoc y byd. Da medru adrodd bod 2023 a 2024 (hyd yma) wedi profi'n fwy llewyrchus. Ond mae'r gyflafan bresennol yn y Dwyrain Canol yn achosi pryder y gall hyn, ynghyd â nifer o argyfyngau eraill ledled ein byd, achosi lleihad yng ngwerth y buddsoddion. Wrth ddatgan hyn mae'r un consyrn yn codi am fuddsoddion unrhyw sefydliad, gan gynnwys buddsoddion Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Yn hyn o beth mae'r heriau sy'n wynebu Pwyllgor Buddsoddion CWM hefyd yn wynebu Pwyllgor Buddsoddion yr Undeb. Ond er cymaint ein consyrn am y pethau hyn ac er i ni ddatgan ein parodrwydd i ymateb i'r her o leihau unrhyw golledion yn ein buddsoddiadau rhaid cofio bod y sialens yn llawer mwy na hyn wrth weld cymaint o ladd, herwgipio, newyn, dioddefaint ac anghyfartaledd ar draws ein byd.

## Sul Sbesial – parhad

Neville Evans. Wedi'r oedfa, mwynhawyd cinio blasus yn y Gwersyll cyn cynnull ar gyfer gwasanaeth yn y prynhawn. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn gyfraniad Rhian Evans (allweddellau), Dafydd Llŷr Davies (drymiwr), Catrin Evans (yn arwain y canu) a'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor yn cyflwyno neges i'r plant.

Diolch hefyd am gymorth ac arweiniad y Parchedig Carys Ann, Karine Davies a holl aelodau Sul Sbesial Cyfundeb Ceredigion. Tynnwyd lluniau arbennig o'r digwyddiadau gan Barri Adams, tynnwr lluniau medrus sy'n cynorthwyo papurau misol a dyddiol yng Ngheredigion. Credwn ei bod yn bwysig cofnodi dyddiau arbennig fel hyn ar gyfer y dyfodol. Gobeithir cynnal Sul Sbesial y Cyfundeb y flwyddyn nesaf eto ar Sul olaf Medi. Croeso i bawb i ymuno. Dewch yn llu i addoli a moliannu ein Harglwydd Iesu Grist.

**Carys Ann**

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 28 2024 RHIF 196

## Gwasanaeth Nadolig 2024

**Llefarydd**: 'Roedd hi'n bwrw eira bob Nadolig. Mae mis Rhagfyr, yn fy atgofion i, mor wyn â Gwlad y Lapiaid, heb y ceirw' (*Nadolig Plentyn yng Nghymru*, Dylan Thomas; addasiad Meleri Wyn James)

Dyna brofiad sawl un ohonom, mae'n siŵr, fel roedd 'yr wybren fyth yn glir' yn emyn adnabyddus Islwyn, yn yr haf. Gaeafau a hafau plentyndod – maen nhw'n hiraethus o hardd, fel y dywedodd Alan Llwyd mewn englyn i Nadolig 2001:

Heno mewn byd mileinach, meddyliaf
Am 'Ddolig amgenach,
Gŵyl lawen dan sêr gloywach
Mewn hen fyd, a minnau'n fach.

A dyma'r darlun ym mhennill cyntaf cyfieithiad Simon B. Jones o garol Christina Rossetti.

**Emyn 466**: 'Ganol gaeaf noethlwm'

**Gweddi**: Yn nhymor y Nadolig rhown i ti, Grëwr gwyrthiol, bob clod am dy gariad unigryw yn dod atom, fel y glaw a'r eira, a hynny'n hollol dawel yn dy Fab. Heb gynnwrf, heb rwysg na bri, dyma ddod atom – dod i'n plith, a chariad yn sail i'r cwbl.

Diolch i ti am gyfle fel hyn i ddathlu dy ddyfodiad, ac wrth i ni ddod ynghyd i'th addoli, helpa ni i gofio mai mewn gwyleidd-dra y daethost atom. Ac i ti y rhown glod. Amen.

**Darlleniad**: Eseia 55: 6–13

**Emyn 460**: 'Clywch beroriaeth swynol'

**Llefarydd**: Mae 'na ryw hynodrwydd yn stori'r Geni sy'n gwneud i ni feddwl mai rhyw dawel nos oedd hi. Ond os darllenwn ran gyntaf yr ail bennod yn Efengyl Luc, mi welwn nad felly roedd hi – o bell ffordd.

Tawel nos ar noson cyfrifiad? Sgersli bilîf! Cyffro, faswn i'n ei ddweud, oedd yno. Rhuthr hefyd, a does 'na fawr o dawelwch mewn rhuthr. Ond cyn i ni fynd at gyffro'r stori gan Luc, beth am wrando neu ymuno yng nghyfieithiad y bardd o Ryd-Ddu, T. H. Parry-Williams, o eiriau Joseph Mohr a cherddoriaeth Franz Gruber?

**Emyn 467**: 'Dawel nos' (unawd/recordiad neu gynulleidfa)

**Darlleniad**: Luc 2: 1–7

**Llefarydd**: Roedd hi'n bwysig bod pawb yn mynd i gofrestru, ac fe wnaeth Joseff a Mair hynny. Ac yn awyrgylch y cyfrifiad hwnnw fe ddigwyddodd gwyrth ym Methlehem. Beth oedd y wyrth honno?

**Darlleniad**: Ioan 1:1–14

**Emyn 441**: 'Wele, cawsom y Meseia'

**Llefarydd**: Y Gair – 'logos'. I mi, mae'r 'Gair' yn golygu 'rhywbeth mawr' – yr arwahanrwydd, yr arallfydol, y grym. Fedrwn ni ddim cyfarch Duw'r Tad heb sylweddoli ei fod yn wirioneddol fawr, a pheth hynod o beryglus ydi ceisio bychanu Duw. Ond mae'r Gair yn ddigon 'mawr' neu 'fawrfrydig' i ddod atom ni. Atom ni? Ie, ni. 'Crëwr yn crio mewn cadach' oedd disgrifiad T. Arfon Williams ohono mewn englyn, ac mae'r cadach yn ddisgrifiad da iawn ohonom ni fel dynoliaeth – gwan, di-nerth a gwael.

**Gweddi**:
Brenin Tragwyddoldeb yn gwisgo dillad dynol!
Beth? Ie, diolch i ti, Arglwydd.
Cynghorwr Rhyfeddol yn siarad iaith pobl!
Anhygoel, ond diolch i ti, Arglwydd.
Rhoddwr Bod yn cerdded ymhlith pobl!
Ffantastig! Diolch i ti, Arglwydd.
Wyt, mi rwyt ti'n haedddu pob clod.
A waeth i ni heb â chymysgu geiriau drwy ddamcaniaethu beth yn union ddigwyddodd ym Methlehem Jwdea, dim ond derbyn bod 'na rywbeth gwir fawr a rhyfeddol wedi digwydd.
A'r hyn sy'n allweddol yn hyn i gyd ydi mai er ein mwyn ni y digwyddodd y cwbl – er mwyn i ni gael byw, er mwyn i ni gael bywyd yn ei holl gyfanrwydd; er mwyn i ni weld ein hunain – peth anodd iawn i'w wneud, ac er mwyn i ni weld eraill fel brodyr a chwiorydd yng Nghrist.
Diolch i ti mai er ein mwyn ni, neu drosom ni y gwnaethpwyd y cwbl – y Geni, holl weinidogaeth Iesu, y marw a'r codi'n fyw.
Haleliwia, Arglwydd, a diolch i ti. Amen.

**Llefarydd**: Un o'r emynau mwyaf cyfoethog gennym ni fel Cymry sy'n sôn am y cwbl yn cael ei wneud drosom ac er ein mwyn ni ydi un Elfed:

**Emyn 365**: 'Caed baban bach mewn preseb'

**Llefarydd**: Mae'r union Faban hwnnw'n galw arnom ni i fod yn dystion drosto heddiw, ac mae'n rhoi'r fraint i ni wneud hynny. Yn ei gerdd 'Ac Oblegid eich Plant', sy'n seiliedig ar Luc 23: 27–31, mae Gwyn Thomas yn darlunio plant yn dioddef. A chan ein bod ninnau'n byw mewn byd mor wallgof heddiw, mae geiriau Gwyn Thomas yr un mor berthnasol:

**Darlleniad**: 'Ac Oblegid eich Plant' (https://www.gwynthomas.cymru/bardd/aoep-gem-1.html)

**Myfyrdod**: Roedd 'na hysbyseb ar y teledu rai blynyddoedd yn ôl a honnai: 'The best things this Christmas come in Tiny packages.' 'Tiny' oedd math arbennig o gyfrifiadur, a bwriad yr hysbyseb, wrth gwrs, oedd ceisio gwerthu'r cyfrifiadur hwnnw.

Dwi'n hollol grediniol fod pethau gorau a drutaf bywyd yn dod mewn pecynnau bach, a'r pethau hynny'n arhosol. Ewch i brynu pob math o emwaith, mewn pecynnau bach y dônt, ac mi fyddant yn para'n hwy na llawer iawn o bethau a brynir mewn pecynnau mwy.

Mewn 'pecyn' bach diaddurn o breseb y daeth Gwaredwr i'r byd. Efo'r rhai mwyaf di-nod mewn cymdeithas y bu'n gweinidogaethu gan amlaf. Ac ar groes bren ddigon disylw y gosodwyd o i ddioddef a marw. Ond meddyliwch am y cyfoeth a gafwyd yn hwn – cyfoeth o fywyd newydd drwy ei dlodi Ef.

Yn sgil hwn daeth llu mawr o bethau nad ydi'r byd yn cymryd dim sylw ohonyn nhw: llawenydd, goddefgarwch, tynerwch, trugaredd, heddwch, a'r cyfan yn tarddu o gariad anfeidrol Duw yn Iesu. Ond dydi'n byd ni hyd y dydd heddiw ddim yn cymryd unrhyw sylw o'r rhoddion yma.

Mi fydda i'n dyheu weithiau am gael gweiddi 'Dowch at Iesu!' Oherwydd does dim ond rhaid i ni edrych ar Iesu a gweld bod yn hwn ymgorfforiad o'r union bethau y mae ein byd ni eu hangen heddiw.

Dwi'n ymddiheuro dim am sôn am Iesu, ac nid rhyw Iesu rydyn ni am ei weld i ffitio'n patrymau ni, ond, a dyfynnu Ioan: 'Y Gair a wnaed yn gnawd a phreswylio yn ein plith … yn llawn gras a gwirionedd'. A dyna i chi ychwanegu dau beth arall at y rhestr: gras a gwirionedd.

**Emyn 479**: 'Daeth Crist i'n plith'

**Y Fendith**

*Iwan Llewelyn Jones*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 1 Rhagfyr, am 7:30yh – Adfent #1**
Rhodri Gomer fydd yn Llandeilo i nodi Sul cyntaf yr Adfent, a chanwn garolau am y tro cyntaf eleni

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 1 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Karl Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 1 Rhagfyr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Peter Thomas, Aberystwyth

# Iesu o Nasareth a'r Byd Go Iawn

Gofynnwyd imi ar fwy nag un achlysur yn ddiweddar i arwain gwasanaeth angladd heb iddo fod yn 'rhy grefyddol'. Mae'n debyg bod hyn yn brofiad sy'n gyffredin i lawer y dyddiau yma. Fel gyda phriodas i raddau, mae deddf gwlad a'r farn gyhoeddus bellach yn tueddu i wthio'r achlysuron pwysig hyn o'r maes crefyddol yn llwyr, a theimlaf yn gryf y dylem ni sy'n arddel ein ffydd Gristnogol geisio cywiro hyn.

Fy ymateb i fy hun yw cyfarch y gynulleidfa fel un gymysg o gredinwyr ac anghredinwyr. Ond byddaf yn cydnabod bod pawb yn chwilio am ryw fath o gyd-destun 'ysbrydol' sy'n rhoi ystyr amgenach i'r angladd na dweud bod yr ymadawedig yn berson ffein a dymuno ffarwél, ac ystyr amgenach i'r briodas na'i bod yn esgus am barti a dymuno pob lwc.

O feddwl am y peth, onid dyma yw pwrpas Cristnogaeth 21 yn y pen draw? Onid chwilio ydyn ni am ffyrdd o wneud ein ffydd yn ystyrlon i bobol sydd wedi torri neu golli pob cysylltiad â'u crefydd? I'r perwyl hwnnw, daeth erthygl deipiedig ataf drwy'r post yn ddiweddar dan y teitl 'Jesus of Nazareth and the Real World'. Fe'i cyhoeddwyd gan Progressive Christian Network (PCN). Dwi am ddyfynnu ohoni gan ei bod, yn fy marn i beth bynnag, yn agos iawn at faniffesto posib i Gristnogaeth 21.

Hanfod yr erthygl yw ein bod wedi gadael i or-grefyddoli cyfundrefnol ein pellhau oddi wrth Iesu Grist – y dyn ifanc dewr a greodd chwyldro yn y byd. Mae ein gwybodaeth am Grist wedi ei seilio ar yr hyn a ysgrifennwyd gan awduron ddegawdau wedi ei farw, ac ni ddylem dderbyn y gweithiau hynny'n llythrennol fel ffeithiau hanesyddol.

Nid pawb fyddai'n derbyn 'dehongliad' yr erthygl o brif ddigwyddiadau bywyd yr Iesu, ond rhaid cydnabod fod grym yn y ddadl y gall dylanwad personoliaeth mor unigryw, carismataidd a digyfaddawd â Iesu Grist droi digwyddiadau 'cyffredin' i ymddangos yn oruwchnaturiol.

Mae'r erthygl bwerus hon yn galw ar i Gristnogion ymroi i ymgyrchu dros gymdeithas a byd gwahanol. Ac fel enghraifft o ymgyrchu cyfoes mae'n dyfynnu David Rhodes, awdur *Climate Crisis: The Challenge to the Church*: 'Er mwyn iddi chwarae rhan i rwystro trychineb hinsawdd, rhaid i'r Eglwys ailfeddwl (*recalibrate*) y rheswm dros ei bodolaeth. Gosod o'r neilltu garthen gysur ein crefydd a baeddu ein dwylo yn yr arena wleidyddol – fel y gwnaeth Iesu.'

I gloi, mi ddyfynnaf ddarn o'r erthygl sy'n dyfynnu o *Setting Jesus Free* gan y Parch. John Churcher:

'I'r sawl sy'n cael profiad o'r Iesu o ddydd i ddydd nid mewn datganiad o gred, ond mewn set o werthoedd, cynigiaf y canlynol, nid fel credo ond fel arweiniad:

'Rydym yn Gristnogion sydd:

1. wedi canfod ffordd at Dduw drwy fywyd a dysgeidiaeth Iesu Grist;
2. yn cydnabod ffyddlondeb pobl eraill sydd ag enwau gwahanol ar y fynedfa i deyrnas Dduw, ac yn derbyn bod eu ffyrdd nhw mor wir iddyn nhw ag yw ein ffyrdd ni yn wir i ni;
3. yn deall bod rhannu gwin a bara yn enw Iesu yn cynrychioli gweledigaeth hynafol o wledd Duw i'r holl bobloedd;
4. yn gwahodd PAWB i gyfrannu yn ein cymuned ac addoli bywyd heb fynnu eu bod yn dod fel ni er mwyn bod yn dderbyniol;
5. yn gwybod mai'r modd yr ydym yn ymddwyn tuag at ein gilydd a thuag at bobl eraill yw'r mynegiant llawnaf o'r hyn a gredwn;
6. yn canfod mwy o ras yn yr ymchwil am ddealltwriaeth nag mewn sicrwydd dogmatig, a mwy o werth mewn ymholi nag yn yr absoliwt;
7. yn creu cymunedau sydd wedi ymroi i alluogi ein gilydd i wneud y gwaith y'n galwyd i'w gyflawni: anelu at heddwch a chyfiawnder i bawb, gwarchod ac adfer cyfanrwydd holl greadigaeth Duw, a dwyn gobaith i'r rhai a alwai Iesu "y lleiaf o'n brodyr a'n chwiorydd";
8. yn cydnabod bod dilyn Iesu yn costio, ac yn golygu cariad dihunan, gwrthwynebiad cydwybodol i'r drwg, ac ymwadu rhag unrhyw ragorfraint.'

*Dafydd Iwan* (o wefan Cristnogaeth21)

# Cerdyn Nadolig dwyieithog – Cymorth Cristnogol ac 'Embrace the Middle East'

Wrth i ryfela barhau yn y Dwyrain Canol, Wcráin, De Swdan a llawer iawn o lefydd ar draws y byd, mae gweddi a gweithred at heddwch ar flaen ein meddyliau wrth nesáu at y Nadolig. Mae Cymorth Cristnogol wedi partneru â'r mudiad elusennol Cristnogol 'Embrace the Middle East' i gyflwyno cerdyn Nadolig arbennig gyda neges o heddwch ac ewyllys da.

Mae'r cerdyn yn dangos gwaith celf 'Mam a Phlentyn' gan yr arlunydd Palesteinaidd amryddawn Sliman Mansour.

Yn y cerdyn, fe geir adnod ddwyieithog, sef 2 Thesaloniaid 3:16, a'r cyfarchiad: 'Gan ddymuno heddwch a llawenydd i chi y Nadolig hwn / Wishing you peace and joy this Christmas'.

Mae'r cerdyn ar gael i'w brynu o siop ar-lein Embrace the Middle East, £4.99 am becyn o 10: https://shop.embraceme.org/products/mother-and-child-christmas-card-welsh

'Dw i'n gweddïo y bydd yr Arglwydd sy'n rhoi heddwch yn



gwneud i chi brofi ei heddwch ym mhob sefyllfa. Bydded yr Arglwydd yn agos at bob un ohonoch chi' (2 Thesaloniaid 3:16; beibl.net)

*Mari McNeill*

*Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru*

caid.org.uk | 029 2084 4646 | 07841 921 531 |
mmcneill@christian-aid.org

# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

## 12 Llyfr Ruth a'r Adfent

### Darlleniad: Colosiaid 1:13–20

Gyda dechrau Tymor yr Adfent ar 1 Rhagfyr, mae blwyddyn yr eglwys yn cychwyn o'r newydd unwaith yn rhagor. Mae'r tymor hwn yn gyfnod o ddisgwyl a hiraethu'r un pryd. I ni fel Cristnogion, mae'r Adfent yn nodi cyfnod o bedair wythnos hyd at ddathlu genedigaeth Iesu Grist. Ac eto, mae'r Adfent yn gyfnod o wneud mwy na chyfri'r dyddiau hyd at y Nadolig; mae'n gyfnod pryd y disgwylir i ni fyfyrio ar ddyfodiad Iesu Grist – ei enedigaeth ym Methlehem ac eto'i ddyfodiad mewn gogoniant ar ddiwedd amser. Wrth gloi'r astudiaethau ar Lyfr Ruth, gadewch i ni gael ein hatgoffa sut y mae'r llyfr yn ddarlun o ddisgwyl a hiraethu am Waredwr.

Fe gofiwch fod yn rhaid, o fewn yr hen ddiwylliant Iddewig, i'r gwaredwr teuluol fedru cyfarfod â thri gofyn:

1. Roedd yn rhaid bod yn perthyn i'r teulu. Gwyddom fod Boas yn perthyn i Elimelech, ac yn yr un modd daeth Iesu Grist fel un ohonom. Edrychwch ar Hebreaid 2:17–18.

2. Roedd yn rhaid i'r un oedd yn dymuno gwaredu fedru gwneud hynny. Roedd Boas yn ddyn digon cryf a chefnog i wneud hynny, ac yn fwy felly roedd Iesu Grist yn Fab Duw heb fod dim y tu allan i'w allu. Edrychwch ar 1 Pedr 1:18–20.

3. Roedd yn rhaid i'r un oedd yn gwaredu fod yn fodlon gwneud hynny. Roedd Boas yn fodlon, ac ynghylch parodrwydd Iesu Grist, edrychwch ar Ioan 10:17–18.

Yn Ruth 3:9 mae Boas yn taenu ei fantell dros Ruth fel darlun ei fod yn dewis ei diogelu. I'r Cristion, nid ein diogelu'n unig drwy ei bresenoldeb daearol a'i addewid am fywyd tragwyddol y mae Iesu Grist ond mae wedi cymryd arno'i hun yr hyn na fedrwn ni wneud dim amdano – ein cyflwr pechadurus. Mae'n lapio amdanom ac yn ein gwisgo â'i gyfiawnder ei hun.

Myfyriwch yn awr ar emyn 522 yn *Caneuon Ffydd* gan William Williams, Pantycelyn: 'Yn Eden, cofiaf hynny byth', ac ar gân Sachareias yn Luc 1: 68–9: 'Molwch yr Arglwydd, Duw Israel! Mae wedi dod i ollwng ei bobl yn rhydd. Mae wedi anfon un cryf i'n hachub ni – un yn perthyn i deulu ei was, y Brenin Dafydd' (beibl.net). Edrychwch hefyd ar Datguddiad 5:9, 'Roedden nhw'n canu cân newydd: "Rwyt ti'n deilwng i gymryd y sgrôl ac i dorri y seliau, am dy fod ti wedi cael dy ladd yn aberth, ac wedi prynu pobl i Dduw â'th waed – pobl o bob llwyth ac iaith, hil a chenedl".' (beibl.net)

Doedd dim rhaid i Ruth a Naomi ofyn y cwestiwn: ydyn ni'n ddigon da i Boas ein gwaredu? Ond y cwestiwn i'w ofyn oedd: ydy Boas yn medru ein gwaredu ni? Rydym yn gwybod yr ateb erbyn hyn. Mae'r hanes yn gorffen yn dda. Felly, mae Iesu Grist wedi cyfarfod â phob gofyn er mwyn bod yn Waredwr i ninnau. Mae'n perthyn i ni wrth iddo ddod yn un ohonom; mae ganddo'r adnoddau i'n gwaredu gan ei fod yn Fab Duw ac roedd wedyn ei hun yn fodlon gwneud hynny.

Darllenwch emyn 536 yn *Caneuon Ffydd* gan Gwilym Cyfeiliog: 'Caed trefn i faddau pechod / yn yr Iawn'. Daeth diwedd ar dristwch Naomi a Ruth ac mae diwedd yn hanes gwaith Iesu Grist trosom: 'Yna, wedi iddo gymryd y gwin, dywedodd Iesu, "Gorffennwyd." Gwyrodd ei ben, a rhoi i fyny ei ysbryd.' (Ioan 19:30) Y gair Groeg am 'gorffennwyd' ydy'r gair Τετέλεσται (tetelestai), sy'n golygu 'cyflawnwyd' – *accomplished,* yn Saesneg.

Fe gafodd Ruth hunaniaeth newydd a daeth yn berson newydd a hynny mewn cyd-destun newydd. Rydyn ninnau'r un fath wrth ddod i gredu. Rydyn ni'n cymryd hunaniaeth newydd, plant Duw, brawd a chwaer i Iesu Grist ac i'n gilydd yn yr eglwys. Wrth addoli a dysgu hefo'n gilydd down i wybod sut i wasanaethu Duw ac eraill. Drwy ddod i adnabod yr Un sydd wedi ein gwaredu, down i'n hadnabod ein hunain. Oherwydd, dim ond yng ngoleuni Iesu Grist y down i adnabod ein hunain yn iawn. Heb Iesu Grist, does dim heddwch, dim bodlonrwydd a dim gwaredigaeth.

Wrth i Ruth benderfynu 'glynu' wrth Naomi (Ruth 1:14) daeth bywyd newydd i'w rhan. Dyma mae Paul yn ei ddweud yn 2 Corinthiaid 5: 17–18, 'Felly, os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. Ond gwaith Duw yw'r cyfan—Duw, yr hwn sydd wedi ein cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist.'

Iesu Grist ydy'r 'perthynas agos' sydd â'r cymwysterau angenrheidiol i'n hachub. Fe gostiodd cynorthwyo Naomi a Ruth i Boas, ond beth yw cost ein gwaredigaeth ni? Cymaint mwy ydy'r ateb. Edrychwch ar 1 Corinthiaid 6:20.

Ym Methlehem yng nghyfnod y Barnwyr cawsom ein cyflwyno i'r darlun hardd o 'waredwr teuluol' yn Boas. Ond ym Methlehem yng nghyfnod Cesar Awgwstws a phan oedd Cyrenius yn llywodraethu ar Syria, daeth Duw ei hun i'r byd yn ei Fab, Iesu Grist.

Tawelwn am ychydig felly a myfyrio'n dawel ar bennill olaf emyn 312 (*Caneuon Ffydd*) gan William Williams:

Ymgrymed pawb i lawr
i enw'r addfwyn Oen,
yr enw mwyaf mawr
erioed a glywyd sôn:
y clod, y mawl, y parch a'r bri
fo byth i enw'n Harglwydd ni.

**Cwestiwn i'w drafod**

Ydych chi wedi newid rhywfaint wrth astudio Llyfr Ruth?

Diolchwn ninnau i Bryn Williams am ei baratoadau ar ein cyfer wrth ein harwain drwy lyfr Ruth a chyflwyno deunydd astudiaeth inni dros y 12 wythnos diwethaf. O'r wythnos nesaf ymlaen byddwn yn rhoi sylw i'r astudiaethau a baratowyd ar gyfer yr Adfent gan y diweddar Jim Clarke.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Gair gan Aled
# Myfyrdod Adfent

*Rhagfyr y cyntaf yw'r Sul cyntaf yn yr Adfent eleni felly dyma fyfyrdod amserol.*

Ar ddechrau'r Adfent fe gefais fy mhererindod flynyddol i gadeirlan Anglicanaidd Lerpwl i weld eu haddurniadau arbennig, ac i gael fy nhywys at eu crud trawiadol yno. Mae'r olygfa yn unigryw ger y crud – gallwch gerdded i mewn i'r olygfa, a rhannu llwyfan am ychydig efo cymeriadau oesol geni Bethlehem. Delwau maint llawn – ac mae rhywbeth am fedru syllu ar rai'r un maint â chi, yn dod â'r olygfa'n fyw. Ynghanol dyddiau dyrys cawn amser yma i roi'r plentyn yn y canol, a rhyfeddu eto at yr egni a'r goleuni sy'n llifoleuo o'r baban Iesu yn y gwair. Gallwn ailgysylltu â'r goleuni hwnnw yn yr heddwch atseiniol.

## Camu i'r 'Dolig

Mae 'na gân hyd syrffed mewn archfarchnadoedd yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae hi'n un fachog hefyd gan Elton John, 'Step into Christmas'. Ydan ninnau am gamu mewn i hanes y Nadolig a'i arwyddocâd eleni? Neu ydan ni am osod rhaffau rhwystro? Ffensys rhag gorfod meddwl am chwalwr y ffensys i gyd. Ydan ni am adael y preseb i'r gorffennol yn unig, lle gynt un bore gwyn, buom yn rhan o'r ddrama?

Yng nghadeirlan Lerpwl eto eleni, gosodwyd yr olygfa, paratowyd y set i ni eisoes, ac mae cragen y crud yn ei lle. Mae 'na, ddisgwyl a dyheu rŵan am glywed camau yn nesáu. Tybed a fentrwn ni ar siwrne'r Nadolig eleni? Mae'r fam yn y gerdd sydd yn cloi'r neges hon eleni yn cael ei chyffwrdd gan linell o garol yng ngwasanaeth Nadolig yr ysgol gynradd leol. Nadolig Llawen iawn i chi gyd.

## GOLAU

Mi fydda i'n ymlacio'n braf
yng nghyngerdd carolau'r plant bach,
anghofio am funud am yr holl bethau
fydd yn galw ar ddiwedd y cyngerdd.
Dwi'n hoffi'r garol am y seren dlos sy'n disgleirio,
a'r lleisiau diniwed yn ei chanu hi
efo'r fath arddeliad.
Ond heno daeth brawddeg annisgwyl
a môr o wynebau diniwed yn canu â'u holl galon
*'Mae 'na olau i bob un,'*
a feddylish i, dw i isio dipyn bach o hwnnw.
Dagrau'n llenwi'n llygaid
a phowlio i lawr fy ngruddiau,
achos dw i isio'r golau hwnnw'n ôl.
Rywsut ynghanol pob dim, dwi 'di golli o.
Mae plant bach gydag o'n naturiol,
maen nhw'n deud y gwir wrth ganu.
Dim ond pan 'dach chi'n tyfu i fyny
'dach chi ddim yn trio chwilio,
meddwl bod y düwch yn fwy diddorol,
ond dydy o ddim byth.
Pam dan ni'n gadael i hwnnw lithro i ffwrdd?
*'Mae 'na olau i bob un,'*
a feddylish i tro 'ma,
dw isio dipyn bach mwy ohono'r Nadolig hwn.

**Aled Lewis Evans**

(Allan o *Shalôm*, rhif 508 Tachwedd a Rhagfyr 2024, deufisolyn Capel y Groes Ebeneser Wrecsam)



# Rhagor o'r Cyngor

*Cynhaliwyd Cyngor Undeb yr Annibynwyr ar 23 Hydref 2024 yn Aberystwyth. Ar ddiwedd sesiwn y bore, cafwyd dau gyflwyniad gan ddau weinidog fu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfnod Sabothol sef y Parchedigion Casi Jones ac Alun Tudur. Isod fe geir crynodeb o'r hyn rannodd Alun gyda'r gynhadledd.*

## Gwerthfawrogiad

Hoffwn ddiolch i eglwys Ebeneser, Caerdydd am ganiatáu cyfnod sabothol o dri mis i mi ac i Undeb yr Annibynwyr am eu cefnogaeth ariannol. Diolch hefyd i'r rhai hynny gynorthwyodd gyda'r *Tyst* am y cyfnod gan fy rhyddhau o'r cyfrifoldeb hwnnw sef Alun Lenny, Iwan Llewelyn Jones, Owain Llŷr a Gwennan Evans.

Gan fod amser yn brin dim ond ychydig o'r hyn welais ac a ddysgais y gallaf ei rannu gyda chi.

## Gwersi

Dysgais nifer o wersi yn ystod y cyfnod:

> Y wers gyntaf oedd nad wyf yn anhepgorol. Nid yw gwaith tragwyddol Iesu Grist yn peidio oherwydd fy mod i yn cael hoe. Iesu yw canolbwynt yr eglwys nid meidrolion fel ni. Cyn mynd i ffwrdd fe drefnwyd fod pob cyfrifoldeb yn cael ei ddidoli rhwng y diaconiaid ac fe roddodd aelodau arbennig Ebeneser eu hysgwydd o dan y baich yn ardderchog. I ddweud y gwir mae rhai o'r bobl gymerodd gyfrifoldebau ychwanegol bryd hynny dal i'w gwneud flwyddyn yn ddiweddarach. Ail wers yw nad wyf yn gallu gwneud popeth ac y mae pobl o fewn i'r gynulleidfa yn gallu gwneud pethau yn llawer gwell na fi. Rhan o'n gwaith yw meithrin pobl, yn enwedig oedolion ifanc i wasanaethu Teyrnas Dduw.
>
> Mae'n bwysig yng nghanol y cwbl i fwynhau a chael sbort wrth gyflawni gwaith Iesu Grist ac nid credu yn feunyddiol fod Duw yn cuchio arnom a bod y dystiolaeth Gristnogol ar ben.

## Y bwriad

Fy mwriad yn ystod y 3 mis oedd edrych ar y dulliau o gynulleidfaoedd newydd. Roedd gen i o leiaf 3 rheswm i wneud hynny:

1. Mae hwn yn bwyslais sydd gan nifer o eglwysi Saesneg. Maent fel caws llyffant yng Nghaerdydd.

*parhad ar y dudalen gefn*

# Golygyddol

## Dau Arlywydd: yr Anghrist a Gwas Crist



Yn ystod oriau man un bore rhai misoedd yn ôl, fe wnaeth Donald Trump roi'r sylwad yma ar ei lwyfan digidol Truth Social – a hynny mewn prif lythrennau, i wneud yn siŵr fod pawb yn clywed y neges yn glir:

'I LOVE THE TEN COMMANDMENTS IN PUBLIC SCHOOLS, PRIVATE SCHOOLS, AND MANY OTHER PLACES, FOR THAT MATTER. READ IT – HOW CAN WE, AS A NATION, GO WRONG??? THIS MAY BE, IN FACT, THE FIRST MAJOR STEP IN THE REVIVAL OF RELIGION, WHICH IS DESPERATELY NEEDED, IN OUR COUNTRY. BRING BACK TTC!!! MAGA2024'

### Torri'r gorchmynion

Dyna ddatganiad rhyfedd gan ddyn sydd wedi gwneud ei orau glas i dorri cymaint â phosibl o'r gorchmynion! Mewn llys yn Efrog Newydd ym mis Mai fe'i cafwyd yn euog ar 34 cyhuddiad o dwyll mewn ymdrech i guddio ei berthynas gyda Stormy Daniels, actores mewn ffilmiau pornograffig, er mwyn dylanwadu ar ganlyniad etholiad arlywyddol 2016. Honnir bod hyn wedi digwydd deufis ar ôl i Melania Trump roi genedigaeth i'w plentyn nhw. Dyna chi dorri dau orchymyn fanna: 'Paid â rhoi tystiolaeth ffals' (rhif 9) a 'Paid â godinebu' (rhif 7).

### Datgelu'r Beibl i efengylwyr

Ond, hei – heb ei fai, heb ei eni. Ydy Mr Trump wedi cael profiad ffordd Damascus felly? *Sgersli bilîf* fel y dywedai Ifas y Tryc! Mae'n fwy tebygol mai ceisio elw gwleidyddol trwy apelio at y garfan efengylaidd gref yn yr Unol Daleithiau ydoedd. Wrth annerch grŵp o efengylwyr dylanwadol yn Washington yn gynharach eleni, gofynnodd a oedden nhw'n gyfarwydd â'r Deg Gorchymyn. ('Jiw, na Donald. Beth yw'r rheini 'te?') 'Has anyone read the "Thou shalt not steal"?' holodd. 'I mean, has anybody read this incredible stuff? It's just incredible.' Byddai'n 'incredible' yn wir pe na bai ei wrandawyr Cristnogol pybyr wedi darllen y Deg Gorchymyn!

### Trump y gwaredwr

Yn ôl arolwg gan y Pew Research Centre dim ond 9% o efengylwyr Protestannaidd sy'n credu bod Donald Trump yn ddyn crefyddol, ond roedd 67% yn credu ei fod e'n sefyll i fyny dros bobl fel hwy *sydd* â chredo crefyddol. Dyma'r math o bobl sy'n gwisgo capiau baseball gyda'r geiriau 'Jesus is my Saviour, Trump is my president' neu'r sticer car,'I believe in the Bible, Jesus Christ and Guns'. Mae'n amlwg bellach bod mwyafrif etholwyr yr Unol Daleithiau'n credu mai Trump yw eu gwaredwr, dyn a gymharodd ei hun â Iesu yn ystod yr achos llys yn ei erbyn.

### Cyn-arlywydd Cristnogol

Mor, mor wahanol i Donald Trump yw'r cyn-arlywydd y cefais i'r fraint o gwrdd â fe yng nghapel bach anghysbell Soar-y-mynydd 'nôl yn 1986. Mae Jimmy Carter, wnaeth ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed fis diwethaf, yn Gristion o argyhoeddiad didwyll. Roedd ffydd â rhan fawr yn ei waith. Cyfeiriodd at yr ysgrythurau mewn cyfweliadau ac areithiau, a dywedodd iddo dynnu nerth o weddïau wrth wneud penderfyniadau pwysig. 'Gweddïais am ddoethineb ac am arweiniad Duw na fyddwn yn gwneud camgymeriad, y gallwn gadw fy ngwlad mewn heddwch a chadw ei chywirdeb a'i diogelwch o hyd,' meddai.

### Gweithio dros heddwch a hawliau dynol

Yn y flwyddyn 2000 fe wnaeth Jimmy Carter ymbellhau oddi wrth Gonfensiwn Bedyddwyr y De, wrth iddynt hwy droi'n fwy ceidwadol yn wleidyddol ac yn ddiwinyddol. Yn groes i gred yr enwad



yna, mynnai nad oedd bod yn hoyw yn bechod a dylid caniatáu ordeinio gwragedd. 'Rwy'n teimlo'n bersonol bod y Beibl yn dweud bod pawb yn gyfartal yng ngolwg Duw a dylai menywod chwarae rhan gwbl gyfartal yng ngwasanaeth Crist yn yr eglwys,' meddai. Ar ôl gadael y Tŷ Gwyn ymdaflodd ei hun i'r gwaith o ysgogi neu arwain trafodaethau heddwch yn y Dwyrain Canol, Affrica a Chanoldir America. Gwir y dywedwyd nad oes yr un cyn-arlywydd arall wedi gweithio mor galed i geisio dwyn cymod mewn sawl rhan o'r byd. Mewn cydnabyddiaeth o'i waith dros heddwch a hawliau dynol, fe dderbyniodd Jimmy Carter Wobr Heddwch Nobel yn 2002.

### Ethol yr Anghrist?

Ond nawr mae'r dyn sydd â'r ego mwyaf yn y byd ar ei ffordd yn ôl i'r Tŷ Gwyn; dyn hollol anfoesol sy'n barod i chwifio'r Beibl nad yw'n credu ynddo er budd gwleidyddol; dyn sydd mor anwybodus a sôn am y Deg Gorchymyn fel rhywbeth newydd wrth efengylwyr; dyn a etholwyd gan nifer o Gristnogion sy'n cydnabod nad yw e'n Gristion. Beth yw Donald Trump felly? Ai yr Anghrist?

**Alun Lenny**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhagor o'r Cyngor – *parhad*

2. Mynegodd rhai o aelodau Ebeneser yr awydd i gychwyn gwaith newydd yn Grangetown sef Angor.
3. Hanes ymneilltuaeth yng Nghymru a'r plannu eglwysi ddigwyddodd gan yr holl enwadau.

### Ymweld

Felly'r hyn wneuthum oedd ymweld ag eglwysi newydd fel 'addolwr dirgel'. Gweld beth oedd yn digwydd a chael paned yr wythnos ddilynol gydag un o'r arweinyddion. Ymwelais â 10 eglwys newydd a gallwch ddarllen yr hanes yn **sabothal.blog** ar y we.




### Vineyard

Un o'r eglwysi hyn oedd eglwys Vineyard ar Heol y Plwca (City Road). Mae Vineyard yn enwad byd-eang ac fe sefydlwyd hon yng Nghaerdydd ychydig flynyddoedd yn ôl. Teimlodd rhyw 15 o bobl yn Efrog alwad Duw i blannu eglwys newydd. Daethant yma a chael swyddi gan ddegymu eu cyflogau i gynnal y gwaith. Ar y dechrau roeddent yn cyfarfod yn Stadiwm y Mileniwm hyd nes iddynt brynu Canolfan y Gate yn y Rhath. Yn yr oedfa y bûm i ynddi roedd oddeutu 150 gyda nifer deuluoedd ifanc. Er bod hon yn eglwys gymharol newydd y maent eisoes wedi plannu dwy gynulleidfa arall yng Nghaerdydd un i'r gorllewin yn Stadiwm Dinas Caerdydd, Lecwydd a'r llall yn ysgol gynradd Hawthorn, Ystum Taf.

Wrth siarad gyda'r arweinydd James Rankin roedd hunanhyder rhyfeddol yn perthyn iddynt a ffydd sicr y byddai Duw yn eu bendithio. Tri pheth amdanynt 1. roeddent yn Bentecostalaidd. 2. pwyslais ar ddoniau'r Ysbryd Glân. Yn cynnwys gair gan Dduw am bobl a iacháu gwyrthiol cyson. (I wybod mwy am hyn darllenwch *Scattered Servants* gan Alan Scott.) 3. roeddent yn cynllunio eu hefengylu yn rhyfeddol o fanwl ac yn ennill pobl newydd fel disgyblion i Iesu. Wrth weld eu gweithgarwch dros efengylu mae dyn yn sylweddoli ein diffyg gweledigaeth ni fel eglwysi Cymraeg.

Fel nifer o eglwysi cyfrwng Saesneg nid oedd ganddynt fawr o ymwybyddiaeth o Gymru na'r Gymraeg. Mae gan Gristnogion di-Gymraeg rhyw syniad am ddiwygiad '04–'05. Ond nid ydynt yn sylweddoli bod y rhan fwyaf ohono – ond nid y cwbl – trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ganddynt yn sicr barch tuag at yr iaith Gymraeg ond nid ydynt yn siŵr pam fod rhai yn addoli yn Gymraeg gan fod 'pawb yn siarad Saesneg'.

### Plannu

Wrth ymweld ag eglwysi oedd newydd eu plannu roeddwn yn ymwybodol iawn o'n hanes ni fel ymneilltuwyr. Oherwydd ni oedd pencampwyr plannu cynulleidfaoedd newydd roedd yn rhan o'n gwehelyth. Nid peth newydd ydyw hyn ond rhywbeth rydym wedi ei wneud ers Llanfaches. Darllenwch hanes eich eglwys ac fe welwch sut yr oeddent wedi cychwyn gyda chynulleidfaoedd bach mewn tafarn, ffermdy, tyddynnod, ysguboriau neu gartrefi. Y dull a ddefnyddiwyd – cyn dyfodiad yr ysgol Sul – oedd pregethwyr teithiol yn cyhoeddi'r newyddion da ac yn cymell pobl i gredu yn Iesu. Pobl fel John Elias, Williams o'r Wern, Christmas Evans, Azariah Shadrach, Dafydd Williams, Troedrhiwdalar, Lewis Rees a channoedd o rai eraill. Canlyniad eu gwaith hwy oedd yr eglwysi a sefydlwyd trwy Gymru benbaladr i dystio i gariad Duw yn Iesu. Mae'n hanes difyr, mae'n hanes pwysig ac mae'n hanes y mae angen i ni gofio a dysgu ganddo. Rydym wedi cyrraedd cyfnod pryd mae'n rhaid gwneud hyn eto.

Felly wrth gloi:


Ni ddylem ofni mentro yn ein gweithgareddau fel Cristnogion wrth ymestyn allan i'n cymunedau, rhaid bod yn fentrus, yn greadigol ac yn ffyddiog gan fod yr Ysbryd Glân ar waith.

Os oes unrhyw bobl iau yn eich cynulleidfa anogwch hwy i arwain ac i gymryd cyfrifoldebau yn y gwaith gan roi rhaff iddynt wneud camgymeriadau.

Edrychwch ar eich gweithgareddau ac aseswch hwy. Nid oes rhaid parhau gyda gweithgarwch oherwydd ei fod wedi ei gynnal ers hanner can mlynedd. Ydy o bellach yn berthnasol?

Mae Duw yn galw ac yn defnyddio ei eglwysi mewn amrywiol ffyrdd. Dyma gryfder cynulleidfaoliaeth. Gallwn addasu i'n sefyllfa, ein lleoliad a'r anghenion a welwn o'n cwmpas. Ystyriwch eich doniau, eich cryfderau eich gwendidau a thorrwch gôt eich tystiolaeth yn ôl brethyn eich cynulleidfa.

[*Bydd adroddiad am gyfnod Sabothol Casi Jones yn ymddangos yn fuan yn* Y Tyst.]




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*